TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

City & Guilds Diploma in MultiSkills Level 1

Yn gryno

Mae'r cwrs hwn yn drosolwg rhagorol o'r diwydiant adeiladu sy'n rhoi mewnwelediad i amryw o grefftau.

Dyma'r cwrs i chi os...

... Oes gennych ddiddordeb brwd mewn adeiladu

... Nad ydych yn siwr pa lwybr i'w ddilyn

... Hoffech gael gwybodaeth ddamcaniaethol a phrofiad ymarferol

Beth fyddaf yn ei wneud?

Byddwch yn caffael dealltwriaeth a phrofiad ymarferol o'r amrywiaeth o grefftau yn y diwydiant adeiladu, wedi'u dethol o blith y canlynol:

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gosod Brics
Gwaith Coed a Saernïaeth
Plastro
Peintio ac Addurno
Teilsio
Trydanol
Plymio

Cynhelir sesiynau ymarferol mewn gweithdai â chyfarpar llawn wedi'u cefnogi gan sesiynau damcaniaethol i ddarparu gwybodaeth a dealltwriaeth sylfaenol.

Byddwch yn dysgu gwybodaeth a sgiliau adeiladu sylfaenol ac yn ymgymryd â gweithgareddau ymarferol a seiliedig-ar-wybodaeth amrywiol.

Cewch eich asesu drwy brosiectau ymarferol ac aseiniadau ysgrifenedig ac ar ôl ei gwblhau byddwch yn cyflawni:

Diploma Lefel 1 mewn Sgiliau Adeiladu
Cymwysterau priodol cefnogol i ehangu eich set sgiliau a diwallu anghenion y diwydiant

Saesneg a Mathemateg

Gweithgareddau Sgiliau

Beth a ddisgwylir ohonof i?

Er mwyn ymuno â'r cwrs, bydd angen o leiaf 4 TGAU Gradd C neu uwch arnoch, gan gynnwys Mathemateg/Llythrennedd mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg Iaith Gyntaf neu gymhwyster Lefel Mynediad priodol.

Mae'n rhaid i chi fod eisiau gweithio yn y diwydiant adeiladu. Mae'n rhaid cael ymrwymiad llawn i bresenoldeb, ynghyd â pharch tuag at eraill, brwdfrydedd am y pwnc a hunangymhelliant. Cewch eich asesu yn barhaus a disgwylir i chi barhau â'ch astudiaethau a'ch gwaith cwrs yn eich amser eich hun.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Cymwysterau adeiladu lefel uwch.

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

Gwybodaeth Ychwanegol

Bydd angen i chi ymgymryd ag asesiad diwydiant adeiladu er mwyn penderfynu ar y cwrs mwyaf priodol